| Enw | | Statws | | | Lleoliad | | | | | | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyffredin** | **Gwyddonol** | **Brodorol** | **Wedi'i Naturioli** | **Wedi'i Chyflwyno** | **Coetir Hynafol** | **Coetir Eilaidd** | **Coetir Newydd** | **Ymyl coedwig** | **Gwrych/Perth** | **Coed Gwrychoedd/Perthi** | **Arfordir** | **SDCau*** | **Trefol** | Ystyriwch y gwerth o ran bioamrywiaeth ac i'r dirwedd, a gofynion rheoli, ac ati. A yw'r rhywogaeth yn gysylltiedig ag unrhyw rywogaeth arall mewn casgliadau pwysig? Mae 'gwrych/perth' yn cyfeirio at wrychoedd/perthi yn y dirwedd ehangach. Ar gyfer gwrychoedd/perthi trefol, cyfeiriwch at y golofn 'trefol'. |
| Rhywogaeth Acer | *Acer sp.* | | ✓ | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Amrywiaeth eang o rywogaethau ar gael. Nodweddion addurnol dibynadwy. Sicrhewch fod y rhywogaeth yn addas ar gyfer y lleoliad. Ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn rhai trefol, gweler masarnen fach a sycamorwydden. |
| Gwernen | *Alnus glutinosa* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | Yn gwneud yn dda mewn safleoedd sy'n draenio'n wael ac ar briddoedd gwael. Mae'r gwyddau bach (*catkins* ) yn darparu ffynhonnell gynnar bwysig o neithdar ar gyfer peillwyr. Mae'r hadau'n darparu ffynhonnell o fwyd ar gyfer adar. Yn gallu cynhyrchu coeden sbesimen ardderchog. |
| Gwernen, Eidalaidd | *Alnus cordata* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Coeden amlbwrpas ar gyfer lleoliadau ffurfiol. |
| Coeden Afalau, Surion Bach | *Malus sylvestris* | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | Mae'r blodau'n darparu ffynhonnell o neithdar yn y gwanwyn ar gyfer peillwyr. Mae'n darparu ffynhonnell o fwyd yn yr hydref ar gyfer bywyd gwyllt, e.e. glöynnod byw, adar a mamaliaid bach. |
| Coeden Afalau, Addurnol | *Malus sp.* | | ✓ | | | | | ✓ | | | | | ✓ | 44 o fathau hysbys o Gymru ar gyfer cynhyrchu ffrwythau. Yn gallu cael ei himpio i wreiddiau o feintiau gwahanol. Mae'r blodau'n darparu ffynhonnell o neithdar yn y gwanwyn ar gyfer peillwyr. Mae'n darparu ffynhonnell o fwyd yn yr hydref ar gyfer bywyd gwyllt. Mae gan rai yn Sir Benfro uchelwydd arnynt. |
| Onnen | *Fraxinus excelsior* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | Yn debygol o ddioddef o laddwr yr ynn. Ar hyn o bryd (2020), ni chaniateir plannu o'r newydd. Angen bod yn ofalus o ran lle i'w phlannu. Yn goeden letyol bwysig ar gyfer cennau. |
| Aethnen | *Populus tremula* | ✓ | | | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | Yn gwneud yn dda mewn safleoedd sy'n draenio'n wael. Yn lledaenu'n gyflym iawn trwy gyfrwng crachgoed. Yn mynd yn frau wrth heneiddio. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Cennau. Yn dda iawn ar gyfer infertebratau. |
| Ffawydden | *Fagus Sylvatica* | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | Ddim yn gallu ymdopi â newid yn yr hinsawdd. Yn cadw ei dail marw trwy'r gaeaf. Yn cael ei defnyddio i greu gwrych/perth. Wedi cytrefu coetiroedd hynafol yn Sir Benfro. |
| Bedwen, Gyffredin | *Betula pubescens* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | Yn well na'r rhywogaethau addurnol (anfrodorol) ar gyfer cynnal bioamrywiaeth. Mae alergedd i baill y fedwen yn gyffredin iawn. Gall fod yn broblem ei rheoli ar rostiroedd gwlyb – osgowch blannu yn ardal Tyddewi, lle mae'n absennol ar hyn o bryd o'r holl rostiroedd gwlyb o bwysigrwydd rhyngwladol sydd ar y penrhyn. |
| Bedwen, Arian | *Betula pendula* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | Yn well na'r rhywogaethau addurnol (anfrodorol) ar gyfer cynnal bioamrywiaeth. |
| Rhywogaethau bedw (eraill) | *Betula sp.* | | | ✓ | | | | | | | | | x | Nodweddion addurnol dibynadwy. |
| Draenen Ddu (llwyn) | *Prunus spinosa* | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | Bydd yn ffurfio crachgoed mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu rheoli. Hon a ddylai fod y rhywogaeth drechol ar yr arfordir. Ffynhonnell gynnar, dda o neithdar, a chyflenwad o fwyd ar gyfer adar ar ddiwedd y gaeaf. |
| Helygen Mair (llwyn) | *Myrica gale* | ✓ | | | | | | ✓ | | | | | | Defnydd cyfyngedig. Llwyn sy'n tyfu mewn corsydd/ar laswelltiroedd llaith. Dylid cyfyngu ar y defnydd ohoni ger safleoedd gwarchodedig i gadw'r integredd genetig. |
| Bocs (llwyn) | *Buxus sempervirens* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Yn tyfu'n araf. Gwrych/perth ffurfiol, dda. |
| Banhadlen (llwyn) | *Cytisus scoparius* | ✓ | | | | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | **Rhybudd:** ni ddylid ei defnyddio yn lle banhadlen orweddol ar safleoedd gwarchodedig. |
| Rhywogaeth Catalpa | *Catalpa sp.* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Gall fod â gwreiddiau ymledol os caiff ei phlannu ar safleoedd bach. |

| Enw | | Statws | | | Lleoliad | | | | | | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyffredin** | **Gwyddonol** | **Brodorol** | **Wedi'i Naturioli** | **Wedi'i Chyflwyno** | **Coetir Hynafol** | **Coetir Eilaidd** | **Coetir Newydd** | **Ymyl coedwig** | **Gwrych/Perth** | **Coed Gwrychoedd/Perthi** | **Arfordir** | **SDCau*** | **Trefol** | Ystyriwch y gwerth o ran bioamrywiaeth ac i'r dirwedd, a gofynion rheoli, ac ati. A yw'r rhywogaeth yn gysylltiedig ag unrhyw rywogaeth arall mewn casgliadau pwysig? Mae 'gwrych/perth' yn cyfeirio at wrychoedd/perthi yn y dirwedd ehangach. Ar gyfer gwrychoedd/perthi trefol, cyfeiriwch at y golofn 'trefol'. |
| Cedrwydden Atlantica | *Cedrus atlantica* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Coeden fythwyrdd fawr sy'n addas ar gyfer plannu ffurfiol mewn gerddi mawr. |
| Cedrwydden Libanus | *Cedrus libani* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Coeden fythwyrdd fawr sy'n addas ar gyfer plannu ffurfiol mewn gerddi mawr – mae'n tyfu'n arafach na Chedrwydden yr Atlas |
| Cedrwydden, Himalaiaidd | *Cedrus deodara* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Coeden fythwyrdd fawr sy'n addas ar gyfer plannu ffurfiol mewn gerddi mawr. |
| Ceiriosen, Chwerw | *Prunus cerasus* | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | | | ✓ | Yn cael ei thrin ar gyfer ei ffrwythau bwytadwy. Yn cael ei hadnabod hefyd wrth yr enw Corgeiriosen. |
| Ceiriosen, Ddu | *Prunus avium* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | Gall fod yn ymledol. Yn lledaenu trwy grachgoed. Ffynhonnell gynnar, dda o neithdar, a ffynhonnell cyflenwad da o fwyd ar gyfer adar. |
| Castanwydden | *Aesculus hippocastanum* | | ✓ | | | | | | | | | | ✓ | Yn agored i blâu a chlefydau. Ffynhonnell dda o neithdar. |
| Castanwydden, Bêr | *Castanea sativa* | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | Yn dda ar gyfer cynhyrchu cnau a phlannu ffurfiol. |
| Cochwydden Gollddail Tsieineaidd | *Metasequoia glyptostroboides* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Conwydden gollddail o faint canolig sy'n tyfu'n gyflym ac sy'n addas ar gyfer plannu ffurfiol ac addurnol. |
| Cwyrosyn (llwyn) | *Cornus sanguinea* | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | Llwyn sy'n tyfu ar galchfaen, yn enwedig yn ne Sir Benfro. Ddim ond yn frodorol ar un neu ddau o safleoedd yn ne Sir Benfro, ond mae yna glystyrau gwasgaredig i'w cael o'r Cornus sericea, a gyflwynwyd ledled y sir. |
| Ysgawen (llwyn) | *Sambucus nigra* | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | | Yn ffynnu mewn ardaloedd ffrwythlon. Ffynhonnell o fwyd yn yr hydref ar gyfer bywyd gwyllt. Ddim yn ddiogel rhag stoc. |
| Llwyfen, Americanaidd | *Ulmus americana* | | | ✓ | | | | | | ✓ | | | ✓ | Credir ei bod yn gallu gwrthsefyll clefyd llwyfen yr Iseldiroedd. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Bryoffytau. |
| Llwyfen, Lydanddail | *Ulmus glabra* | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | Nid yw crachgoed o'r gwreiddiau yn gyffredin yn achos y Llwyfen Lydanddail – mae'n ymateb yn dda i brysgoedio. |
| Coeden ginco | *Ginkgo biloba* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | |
| Eithin, Ewropeaidd (llwyn) | *Ulex europaeus* | ✓ | | | | | | | ✓ | | ✓ | | | Yn lledaenu mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu rheoli. Yn fwy na'r eithin gorllewinol. |
| Eithin, Gorllewinol (llwyn) | *Ulex gallii* | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | Yn ffurf fwy cryno nag *U. europeus* . Yn blodeuo yn y gaeaf. |
| Corswigen (llwyn) | *Viburnum opulus* | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | Ffynhonnell o fwyd yn yr hydref ar gyfer bywyd gwyllt. |
| Draenen wen | *Crataegus monogyna* | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | Ffynhonnell o fwyd yn yr hydref ar gyfer bywyd gwyllt. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Bryoffytau. Coeden nodweddiadol ar gyfer gwrychoedd/perthi'r ffriddoedd yng ngogledd Sir Benfro. |
| Collen (llwyn) | *Corylus avellana* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | Ffynhonnell o fwyd yn yr hydref ar gyfer bywyd gwyllt. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Cennau. |
| Celynnen | *Ilex aquifolium* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | Llawer o fathau ar gael ar gyfer cynlluniau plannu ffurfiol. Gall fod yn ymledol mewn coetiroedd oherwydd ei chrachgoed, ond mae'n ymledu'n bennaf trwy'r hadau. Ffynhonnell bwysig o neithdar ac aeron ar gyfer infertebratau ac adar. Coeden glasurol ar gyfer gwrychoedd/perthi. |

| Enw | | Statws | | | Lleoliad | | | | | | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyffredin** | **Gwyddonol** | **Brodorol** | **Wedi'i Naturioli** | **Wedi'i Chyflwyno** | **Coetir Hynafol** | **Coetir Eilaidd** | **Coetir Newydd** | **Ymyl coedwig** | **Gwrych/Perth** | **Coed Gwrychoedd/Perthi** | **Arfordir** | **SDCau*** | **Trefol** | Ystyriwch y gwerth o ran bioamrywiaeth ac i'r dirwedd, a gofynion rheoli, ac ati. A yw'r rhywogaeth yn gysylltiedig ag unrhyw rywogaeth arall mewn casgliadau pwysig? Mae 'gwrych/perth' yn cyfeirio at wrychoedd/perthi yn y dirwedd ehangach. Ar gyfer gwrychoedd/perthi trefol, cyfeiriwch at y golofn 'trefol'. |
| Oestrwydden | *Carpinus betulus* | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | Yn cael ei defnyddio'n gyffredin mewn gwrychoedd/perthi ffurfiol un rhywogaeth, ac ar sawl ffurf (gwyntyllaidd/pleth). |
| Merywen (llwyn) | *Juniperus communis* | ✓ | | | | | | | | | ✓ | | | Roedd yr is-rywogaeth brin *hemisphaerica* ar gael yn Sir Benfro, ond ni chredir ei bod yn bresennol mwyach. Mae angen gofal wrth blannu ger ardaloedd 'naturiol'. |
| Katsura | *Katsura sp.* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Ei lliw yn yr hydref yn ddiddorol iawn, ac mae iddi arogl candi-fflos. |
| Tresi aur | *Laburnum anagyroides* | | | ✓ | | | | | ✓ | | | | ✓ | Mae'r hadau'n wenwynig. Mae angen bod yn **ofalus** os yw'n cael ei phlannu mewn gerddi a meysydd chwarae. Yn nodwedd yng ngwrychoedd/ym mherthi gogledd Sir Benfro yn unig. Ar wahân i'r ardal hon, ni fyddai tresi aur fel rheol yn cael eu cynnwys yn rhan o wrychoedd/berthi brodorol mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai trefol. |
| Pisgwydden, Gyffredin | *Tilia x europaeus* | | ✓ | | | | | | | ✓ | | | ✓ | Ffefryn ar gyfer pryfed gleision sy'n gollwng melwlith. |
| Pisgwydden, Dail Mawr | *Tilia platyphyllos* | | | x | | | | | | ✓ | | | ✓ | Coeden ffurfiol fawr sy'n addas i'w rheoli mewn ardaloedd trefol, er enghraifft trwy ei bôn-docio |
| Pisgwydden, Dail Bach | *Tilia cordata* | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | Yn dda am amsugno llygredd aer trefol, ac ar ei gorau yn gyffredinol mewn lleoliad trefol. |
| Lliwefr (*Liquidambar* ) | *Liquidambar sp.* | | | ✓ | | | | | | | | ✓ | ✓ | Lliw trawiadol yn yr hydref. Yn dda mewn plannu addurnol. |
| Rhywogaeth Magnolia | *Magnolia sp.* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Fel rheol, bydd y rhywogaethau'n cynhyrchu blodau trawiadol sy'n addas ar gyfer gerddi llai. |
| Masarnen, Fach | *Acer campestre* | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Bryoffytau. |
| Merysbren | *Mespilus germanica* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Yn cynhyrchu ffrwythau bwytadwy. |
| Morwydden | *Morus sp.* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Yn cynhyrchu ffrwythau bwytadwy. |
| Rhywogaeth Northofagus | *Nothofagus sp.* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Ffawydden Ddeheuol yn Gymraeg. |
| Derwen, Mes Coesynnog | *Quercus robur* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | Gall fod yn goeden fawr. Gwerth uchel o ran bioamrywiaeth. Yn byw yn hir. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Cennau. |
| Derwen, (Deilen) Ddi-goes | *Quercus petraea* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | Gwerth uchel o ran bioamrywiaeth. Yn gallu goddef lleoliadau arfordirol yn well na'r Q. robur. Yn addas ar gyfer plannu trefol. Yn byw yn hir. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Cennau. |
| Gellygen, Addurnol | *Pyrus sp.* | | ✓ | | | | | | | | | | ✓ | Gellir penderfynu ar y maint terfynol trwy ddewis y gwreiddgyff. Ffrwythau bwytadwy y gellir eu cynaeafu. Mae'n ddiddorol yn weledol (ffrwythau a blodau), a gellir ei thyfu ar sawl ffurf (gwyntyllaidd/pleth). |
| Pinwydden, Monterey | *Pinus radiata* | | | ✓ | | | | | | | ✓ | | ✓ | I'w chael yn gyffredin yn ne Sir Benfro, ar hyd arfordir Saundersfoot a Dinbych-y-pysgod. Credir iddi gael ei phlannu'n hanesyddol fel 'Coeden Capten'. Yn tyfu'n gyflym. |
| Pinwydden, yr Alban | *Pinus sylvestris* | | ✓ | | ✓ | | | | | | ✓ | | ✓ | Un o'r ychydig gonwydd sy'n frodorol i'r Deyrnas Unedig. Ddim yn frodorol i Sir Benfro. |
| Planwydden, Llundain | *Platanus × acerifolia* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Nifer o amrywiaethau, pob un yn fawr yn y pen draw. Coeden drefol dda. |
| Coeden Eirin, Wyllt | *Prunus domestica* | | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ | | | ✓ | Mae'r Goeden Eirin Gwyrdd, y Goeden Eirin Bwlas a'r Goeden Eirin Duon yn isrywogaethau o *P. domestica* , a elwir hefyd yn Goeden Eirin Ewrop. Ffrwythau bwytadwy. |
| Ffug-acasia (Robinia) | *Robinia sp.* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Yn cynhyrchu blodau crog. Gall fod yn ymledol trwy grachgoed, a gall hefyd fod yn bigog (does dim pigau ar gyltifarau fel rheol). |

| Enw | | Statws | | | Lleoliad | | | | | | | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyffredin** | **Gwyddonol** | **Brodorol** | **Wedi'i Naturioli** | **Wedi'i Chyflwyno** | **Coetir Hynafol** | **Coetir Eilaidd** | **Coetir Newydd** | **Ymyl coedwig** | **Gwrych/Perth** | **Coed Gwrychoedd/Perthi** | **Arfordir** | **SDCau*** | **Trefol** | Ystyriwch y gwerth o ran bioamrywiaeth ac i'r dirwedd, a gofynion rheoli, ac ati. A yw'r rhywogaeth yn gysylltiedig ag unrhyw rywogaeth arall mewn casgliadau pwysig? Mae 'gwrych/perth' yn cyfeirio at wrychoedd/perthi yn y dirwedd ehangach. Ar gyfer gwrychoedd/perthi trefol, cyfeiriwch at y golofn 'trefol'. |
| Criafolen/Cerddinen | *Sorbus aucuparia* | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | Coeden hynod o amlbwrpas. Ffynhonnell o neithdar ar gyfer infertebratau, a ffynhonnell o ffrwythau ar gyfer adar yn yr hydref. |
| Rhywogaeth Sorbus/Cerddinen Wen | *Sorbus sp.* | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | | ✓ | Llawer o amrywogaethau. Mae rhai wedi'u naturioli, a rhai wedi'u cyflwyno. Mae angen bod yn ofalus wrth ddewis amrywogaethau ar gyfer ardaloedd sydd yn ymyl rhywogaethau brodorol prin a allai groesi. |
| Piswydden (llwyn) | *Euonymus europaeus* | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | Heb ei chofnodi'n eang yn Sir Benfro. I'w chael ar galchfaen, yn enwedig yn ne Sir Benfro. |
| Masarnen (Sycamorwydden) | *Acer pseudoplatanus* | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | Yn ymledol mewn coetiroedd. Yn gallu goddef ewyn y môr. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Cennau a Bryoffytau. Ffynhonnell dda o neithdar. |
| Coeden Diwlip | *Liriodendron tulipifera* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Gall dyfu i fod yn goeden fawr iawn. Mae iddi flodau mawr siâp tiwlip ar ddechrau'r haf. |
| Coeden Cnau Ffrengig | *Juglans regia* | | ✓ | | | | | | | | | | ✓ | Yn cynhyrchu cnau ac yn addas ar gyfer plannu ffurfiol. |
| Coeden Cnau Ffrengig, Ddu | *Juglans nigra* | | ✓ | | | | | | | | | | ✓ | Yn cynhyrchu cnau ac yn addas ar gyfer plannu ffurfiol. |
| Gwifwrnwydden | *Viburnum lantana* | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | Yn naturiol brin yn Sir Benfro. |
| Yswydden Wyllt (llwyn) | *Ligustrum vulgare* | ✓ | | | | | | | ✓ | | | | ✓ | Yn well na'r *griselinia* . Yn hawdd ei chynnal a'i chadw ar ffurf gwrych/perth. |
| Cerddinen Wyllt | *Sorbus torminalis* | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | | ✓ | Yn llawer prinnach a mwy ei maint na'r *Sorbus aucuparia* . Yn dda am ffurfio crachgoed. Dim tystiolaeth yn Sir Benfro o aildyfiant diweddar o hadau. |
| Helygen, Bêr | *Salix pentandra* | | ✓ | | | | | ✓ | | | | | | Ddim fel arfer yn cael ei phlannu. |
| Helygen, Glustiog (llwyn) | *Salix aurita* | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | Yn gwneud yn dda ar safleoedd sy'n draenio'n wael. Yn croesi â rhywogaethau helyg eraill. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Bryoffytau. |
| Helygen (llwyn) | *Salix caprea* | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | Yn gwneud yn dda ar safleoedd sy'n draenio'n wael. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Bryoffytau. |
| Helygen, Lwyd | *Salix atrocinerea* | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | Perthog. Yn gwneud yn dda ar safleoedd sy'n draenio'n wael ac ar briddoedd gwael. Dewis posibl yn lle'r Onnen fel coeden letyol ar gyfer Bryoffytau. |
| Ywen | *Taxus baccata* | ✓ | | | ✓ | | | | | | | | ✓ | Un o'r ychydig gonwydd sy'n frodorol i'r Deyrnas Unedig. Mae'r dail a'r hadau'n wenwynig. |
| Ywen, Wyddelig | *Taxus baccata* | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | Ffurf bigfain/golofnog sy'n dda ar gyfer plannu addurnol. |

**Rhybudd:** Canllaw yn unig yw hwn, a dylid ei ddefnyddio gydag arweiniad arbenigol i sicrhau dewisiadau priodol ar gyfer y lleoliad penodol.

**Rhybudd:** Defnyddiwch fyffer addas ger safleoedd gwarchodedig er mwyn amddiffyn integredd y nodweddion gwarchodedig.

**Rhybudd:** Rhowch ystyriaeth i werth cyfredol y safle o ran ei fioamrywiaeth. Gall plannu coed yn y cyd-destun anghywir leihau gwerth cyffredinol yr ardal o ran ei bioamrywiaeth, ac efallai na fydd yn briodol.

**Nodwch:** Yn achos gerddi, cyfeiriwch at wefan y Grŵp Gweithredu Coed a Dylunio (TDAG): http://www.tdag.org.uk/about-tdag.html

**Nodwch:** Mae coed wedi'u naturioli/brodorol yn cyfeirio at Sir Benfro, ac nid o reidrwydd at y Deyrnas Unedig ehangach.

**Nodwch:** I gael rhestr o rywogaethau anfrodorol ymledol y dylid eu hosgoi, cyfeiriwch at y Cynllun Gweithredu ar Rywogaethau Anfrodorol Ymledol (INNS) ar gyfer Sir Benfro, yma: https://www.sir-benfro.gov.uk/bioamrywiaeth/cynlluniau-a-chanllawiau-partneriaeth-natur-sir-benfro

*** SDCau:** gall fod yn ddefnyddiol mewn Cynllun Draenio Trefol Cynaliadwy, ond nid o reidrwydd yn agos at bibellau/danciau, ac ati.